**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 3 Hydref 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S E Keeton (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| B J Rowlands | O G James | M H Jones |
| M W Locke | | |

Hefyd yn Bresennol

| | |
|---|---|
| David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |
| Hamish Osborn | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sarah Bennett | Cyfoeth Naturiol Cymru |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Carol Morgan | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Tom Price | Arweinydd Tîm - Rheoli Llygredd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): E W Fitzgerald, J A Hale a/ac W G Thomas

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Ansawdd Dwr, Rheoli D?r a Rheoli Llygredd**

Roedd yr Aelod Cabinet perthnasol, Arweinydd y Tîm Rheoli Llygredd a chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru'n bresennol i friffio'r panel ar y mater hwn ac i ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Clywodd y panel fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn chwarae rôl allweddol yn y mater, ond mae'r cyngor yn gweithio'n agos â nhw.
- Clywodd y Panel llawer am dymereddau dŵr cynyddol dros yr haf a gofynnodd a yw hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol y bydd problemau gyda bacteria yn nŵr y môr. Clywyd ei fod yn broblem o bosib ac y byddai angen gwneud rhai ymchwiliadau yn y dyfodol, ac mae'n debygol y gwneir y rhain gan y gymuned wyddonol.
- Gofynnodd y panel pa gyfathrebu sydd wedi bod rhwng Dŵr Cymru, y cyngor a CNC ynghylch gollyngiadau carthffosiaeth a sut mae Abertawe'n perfformio o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU. Clywyd bod llawer o gyfathrebu wedi digwydd. Mae CNC yn gweithio gyda Dŵr Cymru o ran nifer a hyd y gollyngiadau o orlifoedd carthffosiaeth, â'r nod o'u lleihau. Nid oes gan yr ardal hon broblemau o'r un lefel ag ardaloedd eraill yn y DU.
- Trafododd y panel sut bydd datblygiadau tai maestrefol yn difrodi cynefinoedd bywyd gwyllt a gallant hefyd greu llygredd a gofynnwyd pa fesurau y dylai'r cyngor eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw datrysiadau draenio dŵr wyneb yn llygru amwynderau lleol sydd eisoes yn bodoli, megis pyllau a chyrsiau dŵr. Clywyd ei fod yn bwysig o safbwynt CNC i gael strategaeth gynaliadwy er mwyn ymdrin â dŵr wyneb ar unrhyw safle a dyna'r rheswm pam mae deddfwriaeth SUDS yn bodoli. Mae'r CNC yn bryderus yn benodol am y cam adeiladu a hoffai gweld gwelliant o fewn y diwylliant.
- Dywedodd y panel fod llawer wedi bod yn y wasg am ollyngiadau dŵr a faint o amser y mae'n ei gymryd i'w datrys a gofynnwyd beth yw hyd yr amser ymateb os bydd gollyngiad mawr o bibellau dŵr glân. Rhoddwyd gwybod nad oes gan CNC reolaeth uniongyrchol dros hyn. Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol am reoli gollyngiadau.

6 **Gorfodi cynllunio: Natur a Bioamrywiaeth**

Roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol a'r Rheolwr Datblygu yn bresennol i friffio'r panel ar sut mae'r system Gynllunio'n ceisio cynnwys natur a bioamrywiaeth yn y broses benderfynu.

Pwyntiau i'w trafod:

- Rhoddwyd gwybod i'r panel ei fod yn ofyniad yng Nghymru'r Dyfodol, y fframwaith datblygu cenedlaethol, y cymerir camau gweithredu i sicrhau gwaith cynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth i ddarparu mantais net, er mwyn sicrhau gwydnwch ecosystemau ac asedau isadeiledd gwyrdd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi hyn ac yn darparu fframwaith cynllunio eglur.

- Yn ogystal, er mwyn darparu eglurder, mae'r cyngor wedi darparu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Bioamrywiaeth a Datblygiad'. Mae'r rhain ar gael ar wefan y cyngor ac anfonwyd llythyron i ddatblygwyr i'w hysbysu ynghylch y CCA.
- Nododd y panel ei fod yn wasanaeth ymatebol gan nad oes gofyniad deddfwriaethol i ddatblygwyr hysbysu'r Adran Gynllunio pan fyddant yn dechrau datblygiad, ac nid oes gan y cyngor ddigon o adnoddau i fonitro pob datblygiad yn rhagweithiol. Pwysleisiodd Aelod y Cabinet fod gan y cyhoedd rôl bwysig i'w chwarae wrth adrodd am broblemau, felly mae cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hanfodol wrth symud ymlaen.
- Teimlai'r panel y byddai'n ddefnyddiol i gyhoeddi manylion cyswllt er mwyn adrodd am broblemau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y cyngor. Ymrwymodd Aelod y Cabinet i gyfathrebu â'r tîm Cyfathrebu i weld beth gallant ei wneud er mwyn cyfleu'r neges hon yn rhagweithiol.

Camau Gweithredu:

- Aelod y Cabinet i gyfathrebu â'r Tîm Cyfathrebu ynghylch cyhoeddi'r neges hon i'r cyhoedd ac adrodd yn ôl i'r panel.

7 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y panel y cynllun gwaith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am